

# Dod yn Swyddog Prawf

Gallai eich hyfforddiant drawsnewid bywydau.

Drwy reoli troseddwr yn y gymuned ac mewn carchardai, mae ein swyddogion prawf yn rhoi cyfle i droseddwr weddnewid eu bywydau ac yn amddiffyn y cyhoedd rhag effaith troseddau.

Mae swyddogion prawf yn gweithio'n agos gyda phobl ar draws y system cyfiawnder troseddol, dioddefwyr troseddau, elusennau a'r gymuned ehangach.

## Beth yw'r Cymhwyster Proffesiynol mewn Profiannaeth (PQiP)?

PQiP yw ein rhaglen ddysgu llawn amser (37 awr yr wythnos) sy'n seiliedig ar waith y bydd angen i chi ei chwblhau'n llwyddiannus er mwyn gwneud cais i ddod yn swyddog prawf. Mae'n cyfuno dysgu academaidd cymhwysol a datblygu sgiliau ymarferol i sicrhau eich bod yn gwbl barod i ddelio â'r holl wahanol fathau o droseddwr yn ein gofal.

Ar ddiwedd y rhaglen, byddwch yn ennill diploma cymhwyster galwedigaethol Lefel 5 mewn Ymarfer Profiannaeth yn ogystal â Gradd Anrhydedd. Bydd gennych y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i asesu risg troseddwr a pharatoi adroddiadau proffesiynol.

Byddwch yn gweithio gydag amrywiaeth o droseddwr, gan gynnwys y rheini sydd wedi cyflawni troseddau treisgar a rhywiol, er mwyn eu hadsefydlu a lleihau'r achosion o aildroseddu.

## Cyfuno astudio â gwaith

Bydd disgwyl i chi deithio i ddigwyddiadau dysgu yn rheolaidd, yn enwedig yn ystod chwe mis cyntaf y rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithdai a seminarau yn yr ystafell ddosbarth
- Gweithdai a seminarau ar-lein
- E-ddysgu
- Cefnogaeth gan diwtor academaidd

Oherwydd COVID-19 a'r cyfyngiadau teithio sydd mewn lle ar hyn o bryd, bydd y rhain yn cael eu cynnal ar-lein.



# Pa mor hir mae'r rhaglen yn para?

Mae'r rhaglen PQiP yn para 15 neu 21 mis, yn dibynnu ar a oes gennych addysg flaenorol mewn troseddeg neu bwnc tebyg. Sylwch mai dyma'r cyfle olaf i ymuno â llwybr y rhaglen 21 mis yn y dyfodol agos.

Mae'r rhaglen 15 mis wedi'i chynllunio ar gyfer ymgeiswyr sydd â chymhwyster Lefel 5 ardystiedig neu uwch\*, ac mae'n cynnwys o leiaf 3 o'r 4 modiwl gwybodaeth canlynol sy'n ofynnol:

- Y System Cyfiawnder Troseddol
- Deall Troseddau ac Ymddygiad Troseddol
- Polisi Cosbi a Chosbi Troseddwyr
- Adsefydlu Troseddwyr

Mae'r rhaglen 21 mis wedi'i chynllunio ar gyfer ymgeiswyr sydd â chymhwyster Lefel 5 ardystiedig neu uwch\*, ond nad ydynt wedi cwblhau 3 o'r 4 modiwl gwybodaeth. Byddwch yn treulio eich 6 mis cyntaf yn cwblhau hyd at 4 o'r modiwlau gwybodaeth gofynnol a amlinellir uchod, cyn mynd ymlaen i elfen PQiP y rhaglen.

\* Ystyrir ymgeiswyr sydd â chymhwysterau sy'n uwch na chymhwyster Lefel 5 hefyd.

Ochr yn ochr ag elfennau astudio'r rhaglen, byddwch yn gweithio fel Swyddog Gwasanaethau Prawf. Gallai hyn fod mewn Uned Gyflawni Gwasanaeth Prawf yn y gymuned, carchar, tîm y llys)

Byddwch yn cael eich asesu wrth i chi ddatblygu eich hyder a'ch cymhwysedd yn y rôl - bydd hyn yn cynnwys arsylwadau, trafodaethau proffesiynol a thystiolaeth gan dystion. Yma, byddwch hefyd yn cael cymorth gan reolwr llinell ac asesydd.

Gallwch ddisgwyl gweithio i'r gwasanaeth prawf ym mhob un o'r meysydd canlynol:

## Y Carchar

Gweithio gyda throseddwyr risg uchel yn ystod eu dedfryd i'w paratoi ar gyfer eu rhyddhau (os yw hyn yn briodol). Mae hyn yn golygu gwneud gwaith medrus gyda charcharorion i'w galluogi i newid a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu neu achosi niwed arwyddocaol. Mae swyddogion prawf yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion carchardai i ailsefydlu troseddwyr. Maent yn defnyddio eu harbenigedd mewn asesu a rheoli risg ac yn gweithio gyda thimau cymunedol i leihau'r risg yn y gymuned ar ôl i'r carcharorion gael eu rhyddhau.

## Y Llys

Gweithio gyda thîm llys penodol i baratoi adroddiadau cyn dedfrydu a rhoi cyngor i'r llys. Er mwyn llunio'r adroddiadau hyn, bydd swyddogion prawf yn siarad â throseddwyr, yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n adnabod y troseddwr. Maent yn asesu'r risg y gallai'r troseddwr ei beri i'r cyhoedd a'r risg y bydd yn aildroseddu. Maent hefyd yn cynghori'r llysoedd ar unrhyw orchmynion neu delerau a allai helpu neu lesteirio'r broses o adsefydlu troseddwr.

## Y Gymuned

Rheoli troseddwyr ar orchmynion cymunedol neu droseddwyr sydd wedi cael eu rhyddhau ar drwydded o'r carchar. Mae hyn yn golygu hybu ailsefydlu ac adsefydlu a rheoli risg, er mwyn sicrhau bod cymunedau'n ddiogel.

Drwy fynd i'r afael ag achosion o aildroseddu, rydym yn lleihau'r siawns y bydd troseddwr yn llithro'n ôl i'r cylch troseddu.

# Cyflog a buddion

Yn ystod eich hyfforddiant, byddwch yn ennill £22,924 – a £1,100 yn ychwanegol os byddwch yn gweithio yn Unedau Cyflawni Gwasanaeth Prawf Swydd Buckingham, Swydd Rhydychen, Caint, Berkshire, Swydd Hertford, Norfolk neu Suffolk, neu £3,889 os byddwch yn gweithio yn Llundain.

Rydym yn cynnig lwfans gwyliau blynyddol hael o 25 diwrnod (sy'n codi i 30 diwrnod ar ôl 5 mlynedd) yn ogystal ag 8 diwrnod o wyliau cyhoeddus.

Mae'r gwasanaeth prawf yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae copi o ganllawiau i aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gael o dan y rhestr o gynnwys A-Z ar brif wefan GMPF:

<http://www.gmpf.org.uk/>

Sylwer:

Bydd unrhyw was sifil presennol sy'n aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n derbyn cynnig i weithio i'r Gwasanaethau Prawf Genedlaethol, yn cael ei eithrio o'r PCSPS ac yn cael ei gofrestru'n awtomatig yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.



## Eich gyrfa fel swyddog prawf

Pan fyddwch wedi llwyddo i gwblhau eich hyfforddiant PQiP, gallwch wneud cais i ddod yn swyddog prawf ar gyflog cychwynnol o

£30,208 (a lwfansau os yw'n berthnasol).

## Ydych chi'n gymwys?

I fod yn gymwys i wneud cais ar gyfer y rhaglen PQiP, rhaid i chi feddu ar gymhwyster lefel 5 dilys:

- Diploma Addysg Uwch (DipHE)
- Gradd sylfaen
- Dyfarniad lefel 5
- Tystysgrif lefel 5
- Diploma lefel 5
- NVQ lefel 5
- neu **gymhwyster cyfatebol**.

Os byddwch yn llwyddo i gyrraedd cam y Ganolfan Asesu Ar-lein wrth wneud cais, rhaid i chi allu darparu tystiolaeth eich bod wedi llwyddo i basio cymhwyster Lefel 5 (neu uwch) drwy gyflwyno tystysgrif ddilys pan ofynnir i chi ar ddechrau cam y Ganolfan Asesu Ar-lein. Os nad ydych chi wedi cael eich seremoni raddio eto, neu os nad ydych chi wedi cael eich tystysgrif pan fyddwch yn cyrraedd cam y Ganolfan Asesu Ar-lein, gallwch gyflwyno trawsgrifiad dilys gan y brifysgol fel tystiolaeth yn lle hynny, neu lythyr yn cadarnhau eich marc pasio gan eich darparwr addysg.

Os ydych chi wedi astudio cymhwyster y tu allan i'r DU, bydd angen i chi gael NARIC yn cadarnhau bod lefel y cymhwyster yn gyfwerth â Lefel 5 yn y DU, neu'n uwch na hynny.

**Sylwer: Os na allwch chi gyflwyno tystiolaeth o gymhwyster Lefel 5, ni fyddwch yn gallu parhau â cham y Ganolfan Asesu Ar-lein a bydd eich cais yn cael ei dynnu'n ôl.**

# Y Broses o Wneud Cais

## Pa mor hir mae'n ei gymryd?

Gall y broses o wneud cais gymryd rhwng chwech a saith mis. Mae hyn yn golygu, os byddwch yn gwneud cais ym mis Ebrill, gallwch ddisgwyl dechrau ym mis Tachwedd. Fodd bynnag, os na allwn gynnig lleoliad addas ar gyfer y garfan a dderbynnir ym mis Tachwedd, byddwch yn aros ar y rhestr teilyngdod a bydd eich cais yn cael ei drosglwyddo i'r garfan nesaf. Mae ymgeiswyr yn gallu aros ar y rhestr teilyngdod am 12 mis – yn unol â pholisi recriwtio Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

## 1. Gwneud cais ar-lein

Cam cyntaf y broses recriwtio yw llenwi ffurflen gais.

Yn ogystal â gofyn i chi am eich addysg a'ch gyrfa, rydym yn defnyddio'r Fframwaith Proffiliau Llwyddiant i'ch asesu yn erbyn amrywiaeth o elfennau gan ddefnyddio gwahanol ddulliau dethol. Mae **rhagor o wybodaeth ar gael yma**.

Ar y ffurflen gais, gofynnir i chi ateb pedwar cwestiwn sy'n seiliedig ar ymddygiad ac un cwestiwn sy'n ymwneud â phrofiad. Mae pob cwestiwn yn gofyn am ateb sy'n cynnwys 250 gair. Meddyliwch yn ofalus am eich atebion a gwnewch yn siŵr eich bod yn hapus â safon eich atebion cyn eu cyflwyno. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi lunio drafft o'ch ymatebion mewn dogfen Word cyn rhoi eich atebion terfynol yn eich ffurflen gais.

Bydd angen i chi roi manylion personol pwysig, fel cenedligrwydd a'ch hawl i weithio yn y DU. Rydym yn defnyddio'r rhain i wneud yn siŵr eich bod yn gymwys i fod yn swyddog prawf. Bydd arnoch angen:

- prawf o hawl i weithio
- prawf o bwy ydych chi
- prawf o'ch cyfeiriad
- Rhif Yswiriant Gwladol
- prawf o Gymhwyster Lefel 5.

Os ydych chi'n gymwys, byddwch yn cael gwahoddiad i gam nesaf y broses o wneud cais – sef cwblhau ein prawf ar-lein.

Os ydych chi'n teimlo bod angen addasiadau rhesymol arnoch i'ch cefnogi yn ystod y broses o wneud cais, cysylltwch â ni yn [MoJ-recruitment-vetting-enquiries@gov.sscl.com](mailto:MoJ-recruitment-vetting-enquiries@gov.sscl.com) neu ar 0345 241 5358 i gael rhagor o wybodaeth am y cymorth rydym yn ei gynnig.

Ni fyddwn yn ailagor ymgyrch ar ôl iddi gau, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais cyn y dyddiad cau a'r amser cau.

## 2. Prawf ar-lein

Ar ôl i chi gyflwyno eich cais, byddwch yn cael gwahoddiad i gwblhau prawf ar-lein o'r enw Skyrise City. Asesiad sy'n seiliedig ar ymddygiad yw hwn.

Mae'r prawf hwn yn eich galluogi i ddangos eich cryfderau naturiol a'ch dewisiadau o ran ymddygiad, ac mae'n rhoi mesur teg a gwrthrychol i ni ganfod pa mor addas ydych chi ar gyfer y rôl. Byddwch yn cwblhau cyfres o dasgau bychain sydd wedi cael eu creu yn dilyn blynyddoedd o ymchwil.

Wedyn, byddwn yn adolygu eich canlyniadau ac yn eu cymharu â chanlyniadau perfformwyr llwyddiannus yn y swydd, er mwyn asesu a ydych chi wedi cymhwyso i symud ymlaen i gam nesaf yr asesiadau.

Rhwng popeth, mae'r asesiad yn cymryd tua 30-50 munud i'w gwblhau. Ond mae pawb yn wahanol ac nid oes cyfyngiad amser, felly dylech ei gwblhau yn eich amser eich hun.

Peidiwch â phoeni os nad ydych wedi cwblhau'r math hwn o asesiad o'r blaen. Ni fydd yn effeithio ar eich canlyniadau. Mae hwn yn dal yn asesiad teg a dibynadwy sy'n cael ei gyflwyno mewn fformat rhyngweithiol a hawdd ei ddefnyddio.

Cyn i chi sefyll y prawf go iawn, rydym yn argymhell eich bod yn sefyll yr asesiad ymarfer a fydd yn eich helpu i baratoi ar gyfer y prawf go iawn. Byddwch yn cael cod a gwybodaeth ar sut i lawrlwytho'r prawf ymarfer a'r prawf ei hun pan fyddwch yn gwneud cais.



### 3. Canolfan Asesu Ar-lein

Mae hwn yn asesiad hanner diwrnod, sy'n cael ei gwblhau ar-lein. Rydym yn profi i weld a oes gennych chi'r gallu, yr ymddygiad a'r cryfderau i fod yn swyddog prawf.

Bydd yr asesiad yn cynnwys:

#### Prawf Ysgrifenedig

- Mae'r prawf yn gwirio eich gallu ysgrifenedig ac yn asesu a ydych yn gallu cymryd gwybodaeth o wahanol ffynonellau a'i chrynhai yn ysgrifenedig. Rydym yn disgwyl i chi ysgrifennu brawddegau cryno sy'n dangos dealltwriaeth resymol o ramadeg, a'r rhan fwyaf o'r geiriau wedi'u sillafu'n gywir. Bydd y prawf ysgrifenedig yn para 60 munud.

#### Chwarae Rôl

- Byddwch yn cael eich asesu ar ddau achos 10 munud o chwarae rôl. Mae'r chwarae rôl yn gofyn i chi ymgymryd â rôl swyddog prawf dan hyfforddiant sy'n rhyngweithio â throeddwr mewn gwahanol sefyllfaoedd. Maent yn seiliedig ar sefyllfaoedd heriol y gallech eu hwynebu fel swyddog prawf dan hyfforddiant. Nid oes angen i chi gael unrhyw wybodaeth flaenorol am y rôl er mwyn llwyddo.

#### Cyfweliad

- Mae'r cyfweliad cyfunol 40 munud yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau sy'n seiliedig ar ymddygiad a chryfderau. Bydd cwestiynau sy'n seiliedig ar ymddygiad yn eich holi am eich cyflawniadau a'ch profiadau blaenorol. Bydd cwestiynau sy'n seiliedig ar gryfderau yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n eich cymell ac yn rhoi egni i chi.

Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am beth i'w ddisgwyl a beth yw'r ffordd orau o baratoi yn nes ymlaen yn y broses o wneud cais.

Os ydych chi'n teimlo bod angen addasiadau rhesymol arnoch i'ch cefnogi, cysylltwch â ni yn [MoJ-recruitment-vetting-enquiries@gov.sscl.com](mailto:MoJ-recruitment-vetting-enquiries@gov.sscl.com) neu ar 0345 241 5358 i gael rhagor o wybodaeth am y cymorth rydym yn ei gynnig ac i roi gwybod i ni am hyn pan ofynnir i chi wneud hynny yn eich ffurflen gais.

### 4. Camau Gwirio Cyn Cyflogi

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd angen i chi fynd drwy gamau gwirio cyn cyflogi a'u pasio. Bydd hyn yn cynnwys fetio Lefel 2 Manylach gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a fetio gan yr heddlu (Fetio Personél nad ydynt yn yr Heddlu Lefel 2) oherwydd bydd angen mynediad at y system ViSOR amlasiantaethol fel rhan o'r swyddi hyn.

Mae pob un o'n swyddi wedi'u heithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr, sy'n golygu bod pob euogfarn sydd wedi'i disbyddu a heb ei disbyddu yn cael eu harchwilio fel rhan o'r broses fetio. Fel rhan o hyn, mae'n rhaid i chi ddatgan pob euogfarn, rhybudd a rhyddhad absoliwt neu amodol – faint bynnag yn ôl y digwyddodd hynny.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma. Ni ddylai hyn atal ymgeiswyr sydd â hanes troseddol rhag gwneud cais gan fod pob achos bob amser yn cael ei ystyried ar ei haeddiant ei hun cyn gwneir penderfyniad.

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn annog ceisiadau gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol ac rydym yn credu y gall hyn wneud gwahaniaeth i ganlyniadau ein defnyddwyr gwasanaeth. Nid yw euogfarn o reidrwydd yn golygu na allwch ddod yn swyddog prawf. Fodd bynnag, bydd peidio â datgelu gwybodaeth yn dod â'ch cais i ben, gan ein bod yn disgwyl lefel uchel o onestrwydd gan bawb yr ydym yn eu cyflogi.

### 5. Cynnig cyflogaeth

Os byddwch yn llwyddiannus yn eich Canolfan Asesu Ar-lein, byddwn yn anfon llythyr cynnig amodol atoch. Fodd bynnag, ni allwn bob amser warantu lleoliad, gan fod hyn yn dibynnu ar anghenion lleol ym mhob ardal ac mae'n dibynnu arnoch chi'n mynd drwy'r camau gwirio cyn cyflogi yn llwyddiannus hefyd.

Os na allwn eich lleoli chi, byddwn yn gohirio eich cais tan y dyddiad derbyn nesaf nes bydd swydd wag addas ar gael – am hyd at 12 mis o ddyddiad eich diwrnod asesu. Ar ôl hyn, byddai'n rhaid i chi wneud cais eto ar gyfer ymgyrch yn y dyfodol.

Os gallwn eich lleoli chi, byddwn yn anfon cynnig lleoliad atoch. Os byddwch yn dewis derbyn y lleoliad a'ch bod yn mynd drwy'r camau gwirio cyn cyflogi yn llwyddiannus, byddwn yn rhoi contract i chi a byddwch yn dechrau ar eich gyrfa newydd gyffrous.

### 6. Cyn i chi ddechrau arni

Byddwn yn gwirio eich cymhwyster Lefel 5 a'r modiwlau y gwnaethoch eu hastudio. Efallai y gofynnir i chi ddarparu rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth am eich cymhwyster lefel 5, a byddwn yn cadarnhau a fyddwch yn cael eich cofrestru ar y rhaglen 15 neu 21 mis. Bydd eich Rheolwr Hyfforddiant Adrannol (DTM), Asesydd Tiwtor Ymarfer (PTA) neu Reolwr Llinell (SPO) yn cysylltu â chi cyn eich dyddiad dechrau, a bydd yn gallu ateb y rhan fwyaf o ymholiadau am hyfforddiant a rôl Swyddog Gwasanaeth Prawf. Os oes gennych unrhyw ymholiad am eich cyflog neu'ch contract, cysylltwch â SSCL ar [MoJ-recruitment-vetting-enquiries@gov.sscl.com](mailto:MoJ-recruitment-vetting-enquiries@gov.sscl.com) neu 0345 241 5358



## Rhanbarthau

Pan fyddwch yn gwneud eich cais bydd angen i chi ddewis o blith rhanbarthau'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis eich lleoliad yn ofalus pan fyddwch yn gwneud cais. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, ni fyddwch yn gallu ei newid ar ôl i chi ddechrau ar eich hyfforddiant.

Sylwch nad oes sicrwydd bod lleoliadau ar gael mewn swyddfeydd penodol yn y rhanbarth o'ch dewis. Os nad yw'n bosibl dyrannu lleoliad addas i chi yn ystod y cyfnod derbyn hwn, bydd eich cais yn cael ei gadw ar restr teilyngdod am 12 mis ac yn cael ei ohirio tan y cyfnod derbyn nesaf.

## Beth fydd fy nghontractau cyflogaeth yn ei gynnwys?

Cyflogir dysgwyr PQiP yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gontractau Swyddogion Gwasanaeth Prawf parhaol a disgwylir iddynt ymgymryd â thasgau arferol Swyddogion Gwasanaeth Prawf yn ystod y rhaglen hyfforddi.

Fodd bynnag, byddant hefyd yn cael rhywfaint o amser astudio tuag at yr elfennau dysgu gofynnol, ond bydd angen gwneud rhywfaint o astudio yn eich amser eich hun.

## Gweithio i'r Gwasanaeth Sifil

Mae prosesau recriwtio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn seiliedig ar yr egwyddor o benodi ar sail teilyngdod, gan gynnal cystadleuaeth deg ac agored, fel yr amlinellir yn Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil.

Os ydych chi'n teimlo nad yw eich cais wedi cael ei drin yn unol â'r egwyddorion a'ch bod yn dymuno gwneud cwyn, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y lle cyntaf.

Os nad ydych chi'n fodlon â'r ymateb rydych chi'n ei gael, gallwch gysylltu â Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil.